GWEITHDREFN AR GYFER CAM 1: ACHOS PRYDER

Ystyried pryder yn y lle cyntaf

1. Bydd pryderon a godir am achosion honedig o dorri safonau neu ymddygiad proffesiynol yn cael eu hystyried gan aelodau priodol o staff o fewn y maes pwnc yr ydych yn astudio ynddo. Gwneir penderfyniad ynghylch a oes achos i'w ateb ac os felly:

   a) a oes angen mesurau ategol;

   b) dylid cyfeirio eich achos at Ddeon y Gyfadran (neu enwebai) (gweler paragraffau 5 i 9 isod);

   c) dylid cyfeirio eich achos yn uniongyrchol at yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, a fydd yn ystyried y camau nesaf o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

2. Gellir argymell eich bod wedi'ch atal o'ch lleoliad neu faes dysgu.

3. Pan nodir mater diogelu mewn perthynas â chi yn mynychu dosbarthiadau, neu os yw eich achos yn ddifrifol iawn a/neu'n droseddol ei natur, caiff hyn ei gyfeirio at y Panel Asesu Risg i'w ystyried.

Mesurau ategol

4. Lle bernir bod mesurau ategol yn briodol, cytunir ar un neu fwy o'r camau canlynol:

   a) argymell bod cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith;

   b) gofyn i chi ysgrifennu darn myfyriol;

   c) ei gwneud yn ofynnol i chi fynychu sesiynau cymorth mewnol neu allanol;

   d) rhoi mesurau ategol priodol eraill ar waith.

Ystyriaeth gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai)

5. Os yw eich achos wedi cael ei gyfeirio i'w ystyried gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), fe'ch gelwir i gyfarfod o fewn pum diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad. Gallwch ddod â rhywun i'r cyfarfod hwn i'ch cefnogi, er enghraifft ffrind neu swyddog Undeb y Myfyrwyr.

6. Gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) weithredu cosbau fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd, Adran Dau: Egwyddorion Rheoleiddiol, paragraffau 2.32 i 2.35:

Ymddiheuriad ysgrifenedig
Efallai y bydd gofyn i'r myfyriwr sy'n ymateb ysgrifennu ymddiheuriad ysgrifenedig; Gallai hyn fod i'r unigolyn perthnasol, neu i'r Brifysgol. Os yw'r Brifysgol yn anfodlon â'r ymddiheuriad, efallai y gofynnir i'r myfyriwr sy'n ymateb ei ailysgrifennu neu gellir cyfeirio'r achos yn ôl am gamau pellach o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

Rhybuddion
Mae tri chategori o rybuddion ffurfiol y gellir eu gweithredu, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y camymddygiad.

- *Rhybudd llafar*
- *Rhybudd ffurfiol ysgrifenedig – bydd yn cael ei gadw ar gofnod am gyfnod penodol, sef blwyddyn fel arfer. Gall unrhyw dramgwydd tebyg sy'n digwydd eto arwain at gyfeirio'r Myfyriwr sy'n Ymateb at Bwyllgor Disgyblu/ Addasrwydd i Ymarfer.*
- *Rhybudd terfynol ysgrifenedig– gall Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer ymdrin ag unrhyw achosion pellach o gamymddygiad yn uniongyrchol, a bydd y tramgwydd a brofwyd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gosb.*

Taliadau
Mae'n bosibl y bydd angen i'r Myfyriwr sy'n Ymateb dalu am unrhyw ddifrod a achosir ganddo, hyd at £1000. Telir y taliadau i berchennog neu feddiannydd yr eiddo a ddifrodwyd. Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau'r Myfyriwr sy'n Ymateb, a gellir caniatáu amser iddo dalu'r swm neu ganiatáu iddo dalu'r swm mewn rhandaliadau penodedig.

Cyfyngiadau/amodau
Gellir gosod cyfyngiadau neu amodau ar y myfyriwr sy'n ymateb. Enghreifftiau yw: rhaid i geisio cymorth gan Wasanaethau Myfyrwyr; dim cyswllt uniongyrchol â myfyriwr arall (Gorchymyn Dim Cyswllt (NCO)). Os bernir bod hynny er budd pennaf y myfyriwr, gellir gwneud atgyfeiriad at raglen addysgol.

7. Mae Deon y Gyfadran (neu enwebai) hefyd yn gallu:

   a) cyfeirio'r pryder yn ôl at y tîm pwnc i ystyried gweithredu mesurau ategol, neu

   b) ofyn am ymchwiliad i'r pryderon a godwyd os bernir bod hyn yn angenrheidiol.

8. Bydd y canlyniad yn cael ei roi i chi yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

9. Os nad ydych yn cytuno â'r canlyniad a'r gosb a osodwyd gan Ddeon y Gyfadran, gallwch ofyn i'ch achos gael ei gyfeirio at Gam 2 y Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer, a bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi.

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig
Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ystyried Cynrychiolaeth Gyfreithiol
Gweithdrefn Asesu Risg

Canllawiau ar gyfer Gweithredu Cosbau
Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol
Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio